GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus

**Mehefin 2025 Canfyddiadau Arolwg Panel:**

Diabetes math 2, defnydd menig mewn lleoliadau gofal iechyd, anymataliaeth, iechyd deintyddol, newid hinsawdd a polisi iechyd cyhoeddus

Cyhoeddwyd: Awst 2025

# Cefndir

- Mae **Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus** yn banel cenedlaethol o drigolion Cymru sy’n 16+ oed a sefydlwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i alluogi **ymgysylltiad rheolaidd â’r cyhoedd** i lywio polisïau ac ymarfer iechyd y cyhoedd.
- Cynlluniwyd y panel i gynrychioli poblogaeth Cymru yn gyffredinol yn ôl oedran, rhyw, amddifadedd, ethnigrwydd a bwrdd iechyd.
- Mae aelodau'r cyhoedd yn cael eu recriwtio i'r panel gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau ac yna'n cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn arolygon rheolaidd i roi cipolwg ar faterion iechyd cyhoeddus allweddol.
- Mae’r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau o arolwg Mehefin 2025 sy’n cwmpasu:
    - **Diabetes math 2**
    - **Defnydd menig mewn lleoliadau gofal iechyd**
    - **Anymataliaeth**
    - **Iechyd deintyddol**
    - **Newid hinsawdd**
    - **Polisi iechyd cyhoeddus**
- Rydym yn ddiolchgar iawn i drigolion Cymru sydd yn rhoi o’u hamser gwerthfawr i gymryd rhan yn y panel.





# Trosolwg methodolegol

- Ymgymerwyd â recriwtio cychwynnol i banel Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus (Tachwedd 2022 at Ionawr 2023) dros y ffôn, wyneb yn wyneb ac ar y cyfryngau cymdeithasol.
- Mae recriwtio yn broses barhaus a gall unigolion gofrestru drwy wefan Panel Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus (yn agor mewn ffenestr newydd) ar unrhyw adeg.Yn seiliedig ar sgrinio demograffig cychwynnol, caiff unigolion naill ai eu recriwtio'n uniongyrchol i'r panel neu eu gwahodd i ymuno â rhestr aros os yw'r cwota ar gyfer eu proffil demograffig yn llawn.
- Wrth gyflwyno pob arolwg, bydd recriwtio ychwanegol wedi'i dargedu yn digwydd drwy gyfweliadau wyneb yn wyneb ar y cyfryngau cymdeithasol i gynyddu cynrychioldeb sampl yn ôl yr angen.
- O fis Ebrill 2025, gwahoddir aelodau'r panel i gwblhau arolwg bob pedwar mis, naill ai ar-lein neu dros y ffôn.
- Casglwyd y data ar gyfer yr arolwg hwn rhwng 5 a 30 Mehefin 2025.
- Ni chynhigir unrhyw gymhellion ariannol ar gyfer cyfranogiad.
- Oherwydd bod y panel wedi'i ddewis yn rhannol ei hun ac yn canolbwyntio ar bynciau iechyd y cyhoedd, gallai'r sampl gael ei effeithio gan duedd tuag at drigolion sydd â mwy o ddiddordeb mewn pynciau iechyd cyhoeddus a materion gofal iechyd. Dylid ystyried hyn wrth ddehongli'r canfyddiadau.
- Ceir rhagor o wybodaeth am ddulliau'r arolwg yn yr Atodiad.

- Ceir dadansoddiad demograffig o aelodau'r panel a gafodd eu gwahodd i gwblhau'r arolwg a'r 1,402 gymerodd ran, ac a gwblhaodd yr arolwg ym mis Mehefin 2025 yn yr Atodiad.
- Oni nodir yn wahanol, mae data'n cael eu pwysoli i adlewyrchu demograffeg y boblogaeth genedlaethol yn ôl oedran, rhyw ac amddifadedd.
- Sylwer: efallai na fydd y canrannau yn yr adroddiad hwn yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu.

- Cymerodd 1,402 o bobl ran yn arolwg mis Mehefin 2025 (5ed at 30fed Mehefin 2025).

## Diabetes math 2 (T2D)

- Dywedodd y rhan fwyaf o bobl eu bod yn gwybod bod modd atal Diabetes Math 2 (T2D) (45% iawn; 42% ryw raddau).
- O restr o chwe symptom T2D, y gyfran isaf o bobl a ddywedodd eu bod yn gyfarwydd â phob symptom oedd:
  - Cosi cyffredinol neu lindag (30%)
  - Colli pwysau yn annisgwyl (38%)
  - Clwyfau sy'n gwella'n araf (53%)
- Roedd diddordeb mewn defnyddio teclyn ar-lein i ddysgu pa mor agored i risg yw unigolyn o gael T2D yn uchel. Roedd 33% o bobl â diddordeb mawr a 42% â diddordeb cymharol fawr.

## Defnydd menig mewn lleoliadau gofal iechyd

- Dywedodd 58% o bobl eu bod yn cefnogi gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn cynnal triniaethau gyda dwylo wedi'u golchi a dim menig lle mae canllawiau'n awgrymu nad oes angen menig (nid oedd 28% yn cefnogi nac yn gwrthwynebu; roedd14% yn gwrthwynebu)
- Pan gyflwynwyd pedwar budd o leihau nifer y menig a ddefnyddir gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol, y budd a nodwyd bwysicaf i'r rhan fwyaf o bobl oedd lleihau lledaeniad haint (58%), ac yna lleihau gwastraff (18%).

## Anymataliaeth

- Dim ond 45% a 37% o bobl a ddywedodd eu bod yn wybodus am anymataliaeth wrinol ac anymataliaeth y coluddyn, yn y drefn honno.
- Dywedodd mwy o bobl y byddent yn teimlo'n gyfforddus yn siarad am brofi anymataliaeth gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol (77%) nag â theulu (48%) neu ffrindiau (31%). Fodd bynnag, dywedodd 77% y byddent yn teimlo'n gyfforddus pe bai eu teulu neu eu ffrindiau'n siarad â nhw am eu hanymataliaeth.

## Polisi iechyd cyhoeddus

- Y tri phrif faes polisi (o restr o chwech) yr oedd pobl yn credu bod gan Lywodraeth Cymru rôl 'fawr' ynddynt oedd:
  - Lleihau tlodi plant (75%)
  - Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant (69%)
  - Gwneud bwyd a diod iach yn fwy hygyrch a fforddiadwy (58%)

## Iechyd deintyddol

- Dywedodd 29% o bobl eu bod wedi cael cwrs preifat o driniaeth ddeintyddol dros y 12 mis diwethaf. O'r grŵp hwn, roedd 49% wedi ceisio cael gofal y GIG ond nid oedd ar gael iddynt.
- Hoffai 56% o bobl gael archwiliadau deintyddol y GIG ar adegau penodol rheolaidd, waeth pa mor dda neu wael yw eu hiechyd deintyddol.
- Dim ond 12% o bobl oedd wedi clywed am y Porth Mynediad Deintyddol.

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Diabetes math 2

Ceisiodd yr adran hon ddeall lefel gwybodaeth a dealltwriaeth pobl o ddiabetes math 2. Mae diabetes math 2 yn lefelau siwgr gwaed uchel oherwydd nad yw'ch corff yn cynhyrchu digon o hormon o'r enw inswlin, neu nad yw'r inswlin y mae'n ei gynhyrchu yn gweithio'n iawn - a elwir yn ymwrthedd i inswlin.

# Diabetes math 2

## Pa mor ataliadwy, os o gwbl, ydych chi'n meddwl mae diabetes math 2?




Gwell gennyf beidio â dweud: yn llai na 1%

# Diabetes math 2

**Pa rai o'r canlynol, os o gwbl, oeddech chi eisoes yn gwybod eu bod nhw'n symptomau o ddiabetes math 2?**
(Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

| | Do |
|---|---|
| Teimlo'n sychedig iawn | 83% |
| Teimlo'n fwy blinedig nag arfer | 78% |
| Angen mynd i'r toiled yn amlach | 71% |
| Clwyfau sy'n gwella'n araf | 53% |
| Colli pwysau yn annisgwyl | 38% |
| Cosi cyffredinol neu lindag | 30% |
| Doeddwn i ddim yn gwybod am yr un o'r symptomau hyn (ymateb unigryw) | 8% |

Gwell gennyf beidio â dweud: yn llai na 1%

# Diabetes math 2

**Pa rai o'r canlynol, os o gwbl, oeddech chi eisoes yn gwybod eu bod nhw'n ffactorau risg o ddiabetes math 2?**
(Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

| | Do |
|---|---|
| Byw gyda gorbwysau neu ordewdra | 86% |
| Bod â hanes teuluol o ddiabetes | 75% |
| Bod yn anactif yn gorfforol | 72% |
| Meddu ar gylchedd gwasg mawr | 67% |
| Bod yn 40 oed a throsodd | 48% |
| Hanes o bwysedd gwaed uchel, trawiad ar y galon neu strôc | 42% |
| Bod o ethnigrwydd De Asiaidd, Du Caribïaidd neu Ddu Affricanaidd | 37% |
| Wedi cael diabetes yn ystod beichiogrwydd | 32% |
| Doeddwn i ddim yn gwybod am yr un o'r ffactorau risg hyn (ymateb unigryw) | 6% |

Gwell gennyf beidio â dweud: yn llai na 1%

# Diabetes math 2

**Pa rai o'r canlynol, os o gwbl, oeddech chi eisoes yn gwybod eu bod nhw'n gymhlethdodau o ddiabetes math 2?**
(Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

| | Do |
|---|---|
| Problemau traed yn arwain at drychiad | 82% |
| Problemau llygaid | 77% |
| Problemau arennau | 58% |
| Trawiad ar y galon a strôc | 53% |
| Clefyd y deintgig | 50% |
| Difrod i'r nerfau | 28% |
| Doeddwn i ddim yn gwybod am unrhyw un o'r cymhlethdodau hyn (ymateb unigryw) | 8% |

Gwell gennyf beidio â dweud: yn llai na 1%

# Diabetes math 2

## Faint o ddiddordeb fyddai gennych mewn defnyddio teclyn ar-lein i ddysgu pa mor agored ydych chi i ddiabetes math 2?




Gwell gennyf beidio â dweud: 1%

# Diabetes math 2

## Ydych chi neu berthynas agos wedi cael diagnosis o ddiabetes math 2?




Gwell gennyf beidio â dweud: 1%

# Diabetes math 2

Gofynnwyd i'r rhai nad oeddent wedi nodi eu bod wedi cael diagnosis o ddiabetes math 2 (n = 1,214; heb ei bwysoli)

**Ydych chi erioed wedi meddwl tybed a ydych chi mewn perygl o gael diabetes math 2?**




Gwell gennyf beidio â dweud: 2%

# Diabetes math 2

Gofynnwyd i'r rhai nad oeddent wedi nodi eu bod wedi cael diagnosis o ddiabetes math 2 (n = 1,214; heb ei bwysoli)

**Ydych chi wedi gwneud unrhyw newidiadau i'ch ymddygiadau (e.e. deiet, ymarfer corff, alcohol) oherwydd eich bod chi'n poeni am gael diabetes math 2?**




Gwell gennyf beidio â dweud: 1%

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Defnydd menig mewn lleoliadau gofal iechyd

Roedd yr adran hon â diddordeb mewn barn pobl ar arferion hylendid dwylo mewn lleoliadau gofal iechyd gan y gall y rhain amrywio. Yn dibynnu ar y driniaeth, dim ond lle mae canllawiau'n awgrymu nad oes angen menig y gall gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ddefnyddio menig neu ddwylo wedi'u golchi.

# Defnydd menig mewn lleoliadau gofal iechyd

## Cyn heddiw, oeddech chi'n gwybod y gallai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol 'wisgo Menig' neu 'fod â dwylo wedi'u golchi a dim menig' ar gyfer gwahanol driniaethau?




Gwell gennyf beidio â dweud: 1%

# Defnydd menig mewn lleoliadau gofal iechyd

**I ba raddau ydych chi'n cefnogi neu'n gwrthwynebu gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gwneud triniaethau â dwylo wedi'u golchi a dim menig lle mae canllawiau'n awgrymu nad oes angen menig?**




Gwell gennyf beidio â dweud: yn llai na 1%

# Defnydd menig mewn lleoliadau gofal iechyd

**Pe baech chi'n derbyn y gweithdrefnau canlynol, a fyddech chi'n ei chael hi'n dderbyniol iddyn nhw gael eu gwneud gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n gwisgo menig neu ddwylo wedi'u golchi a dim menig, neu'r naill neu'r llall?**

| | Dwylo wedi'u golchi a dim menig | Y naill neu'r llall | Menig | Gwell gennyf beidio â dweud |
|---|---|---|---|---|
| Cymryd pwysedd gwaed | 65% | 28% | 7% | Yn llai na 1% |
| Helpu claf i fwyta | 54% | 28% | 18% | 1% |
| Newid dillad gwely | 47% | 30% | 22% | 1% |
| Cynnal archwiliad arferol (e.e. archwiliad abdomenol) | 47% | 32% | 21% | 1% |
| Mamogram (hynny yw, pelydr-x o'r fron) | 41% | 33% | 19% | 8% |
| Rhoi meddyginiaeth trwy'r geg | 40% | 28% | 31% | 1% |
| Rhoi diferion llygaid | 37% | 27% | 35% | 1% |
| Rhoi pigiad | 35% | 27% | 38% | Yn llai na 1% |
| Helpu claf i ymolchi | 31% | 30% | 38% | 1% |
| Cymryd gwaed | 20% | 25% | 55% | Yn llai na 1% |
| Gwirio clwyf | 7% | 16% | 76% | 1% |
| Cynnal archwiliad personol | 3% | 12% | 84% | Yn llai na 1% |

# Defnydd menig mewn lleoliadau gofal iechyd

## Ydych chi'n ymddiried mewn gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i wneud y penderfyniadau cywir am arferion hylendid dwylo (e.e. pryd mae angen gwisgo menig ai peidio)?




Gwell gennyf beidio â dweud: 1%

# Defnydd menig mewn lleoliadau gofal iechyd

**Byddai lleihau nifer y menig a ddefnyddir gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol yn dod â sawl budd. Trefnwch yn nhrefn pwysigrwydd, lle mae 1 yn bwysicaf a 4 yn lleiaf pwysig, y pedwar budd canlynol o ran pa mor bwysig y byddent i chi.**

| | 1 – Bwysicaf | 2 | 3 | 4 – Lleiaf pwysig | Gwell gennyf beidio â dweud |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae'n lleihau lledaeniad yr haint | 58% | 10% | 9% | 18% | 4% |
| Mae'n lleihau cyflyrau dwylo neu groen i weithwyr gofal iechyd proffesiynol | 10% | 47% | 20% | 19% | 4% |
| Mae'n lleihau gwastraff | 18% | 20% | 37% | 21% | 4% |
| Mae'n lleihau cost | 9% | 20% | 30% | 37% | 4% |

# Defnydd menig mewn lleoliadau gofal iechyd

## Ydych chi'n weithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n defnyddio menig yn eich swydd ar hyn o bryd?




Gwell gennyf beidio â dweud: 1%

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Anymataliaeth

Ceisiodd yr adran hon ddeall gwybodaeth a chanfyddiadau pobl o anymataliaeth. Mae dau fath o anymataliaeth, sef anymataliaeth wrinol ac anymataliaeth y coluddyn.

# Anymataliaeth

**Anymataliaeth wrinol yw pan fyddwch chi'n pasio wrin yn anfwriadol. Pa mor wybodus, os o gwbl, fyddech chi'n dweud eich bod chi am anymataliaeth wrinol?**




Gwell gennyf beidio â dweud: yn llai na 1%

# Anymataliaeth

**Anymataliaeth y coluddyn yw pan na allwch reoli pryd rydych chi'n gwneud baw. Pa mor wybodus, os o gwbl, fyddech chi'n dweud eich bod chi am anymataliaeth y coluddyn?**




Gwell gennyf beidio â dweud: yn llai na 1%

# Anymataliaeth

**Pa rai o'r grwpiau hyn o bobl, os o gwbl, oeddech chi'n gwybod sydd mewn perygl cynyddol o brofi anymataliaeth?**
(Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

| | Do |
|---|---|
| Menywod 60 oed a throsodd | 77% |
| Menywod sydd wedi rhoi genedigaeth | 74% |
| Dynion 60 oed a throsodd | 73% |
| Pobl sy'n byw gyda gorbwysau neu ordewdra | 45% |
| Arall | 10% |
| Dydw i ddim yn gwybod pwy sydd mewn perygl o brofi anymataliaeth (ymateb unigryw) | 13% |

Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad: 1%

# Anymataliaeth

## Pe baech chi'n profi anymataliaeth, a fyddech chi'n teimlo'n gyfforddus neu'n anghyfforddus yn siarad â'r canlynol?

| | Cyfforddus | Anghyfforddus | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Ffrindiau | 31% | 56% | 13% |
| Teulu | 48% | 41% | 11% |
| Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol | 77% | 17% | 6% |

Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad: 1%

# Anymataliaeth

## A fyddech chi'n teimlo'n gyfforddus neu'n anghyfforddus pe bai aelod o'r teulu neu ffrind yn siarad â chi am eu hanymataliaeth?




Gwell gennyf beidio â dweud: yn llai na 1%

# Anymataliaeth

## Faint o effaith negyddol, os o gwbl, ydych chi'n credu y mae profi anymataliaeth yn ei chael ar yr agweddau canlynol ar fywydau pobl?

| | Ddim yn gwybod | 1 Dim effaith o gwbl | 2 | 3 | 4 | 5 Effaith fawr |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Bywydau gwaith | 3% | 1% | 1% | 8% | 25% | 62% |
| Iechyd meddwl | 3% | 3% | 1% | 11% | 23% | 60% |
| Iechyd corfforol | 4% | 1% | 4% | 22% | 28% | 40% |

Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad : Yn hafal i neu'n llai na 1%

# Anymataliaeth

## Ydych chi'n cefnogi neu'n gwrthwynebu'r angen am ragor o drafodaeth gyhoeddus ar anymataliaeth i gynyddu dealltwriaeth y cyhoedd?




Gwell gennyf beidio â dweud: 1%

# Anymataliaeth

## Ydych chi erioed wedi profi anymataliaeth (wrinol neu goluddynol)?




Gwell gennyf beidio â dweud: 1%

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Iechyd deintyddol

Yn yr adran hon, fe wnaethom archwilio defnydd pobl o ofal iechyd deintyddol, a ddarperir gan y GIG ac yn breifat. Roedden ni hefyd eisiau gwybod eu barn ar newidiadau arfaethedig i ddarpariaeth deintyddiaeth y GIG yng Nghymru.

# Iechyd deintyddol

**Sut byddech chi'n disgrifio eich iechyd deintyddol presennol? Mae hyn yn cynnwys cyflwr eich ceg, dannedd, deintgig, ac, os yw'n berthnasol, dannedd gosod.**




Gwell gennyf beidio â dweud: 1%

# Iechyd deintyddol

**Pe baech chi'n mynychu archwiliadau deintyddol y GIG, pa un o'r canlynol fyddai'n well gennych?**
Gelwir archwiliad deintyddol hefyd yn 'asesiad iechyd y geg' ac yn 'archwiliad deintyddol'.

| | Do |
|---|---|
| Hoffwn i gael archwiliadau deintyddol yn rheolaidd ar gyfnodau penodol, ni waeth pa mor dda neu ddrwg yw fy iechyd deintyddol | 56% |
| Hoffwn i ddilyn cyngor tîm deintyddol ar ba mor aml y dylwn i gael archwiliadau deintyddol | 30% |
| Hoffwn i gael mynediad at archwiliadau deintyddol pan fyddaf yn teimlo bod angen i mi (h.y. dim archwiliadau rheolaidd) | 11% |
| Dim ond ar gyfer triniaeth ddeintyddol frys yr wyf eisiau bod yn bresennol | 2% |
| Arall | 1% |

Gwell gennyf beidio â dweud: Yn llai na 1%

# Iechyd deintyddol

## Gan feddwl am yr eitem neu'r cwrs triniaeth ddeintyddol ddiweddaraf a gawsoch yn ystod y 12 mis diwethaf, pa fath o ofal deintyddol a gawsoch chi?

| | Do |
|---|---|
| Preifat yn unig (gan gynnwys yswiriant deintyddol) | 29% |
| GIG yn unig y gwnes i dalu amdano | 23% |
| Nid wyf wedi mynychu apwyntiad deintyddol yn ystod y 12 mis diwethaf | 22% |
| GIG yn unig oedd yn rhad ac am ddim | 16% |
| GIG yr wyf wedi talu amdano wedi'i ddilyn gan ofal deintyddol preifat ychwanegol | 5% |
| GIG a oedd yn rhad ac am ddim ac wedyn gofal deintyddol preifat ychwanegol | 4% |
| Arall | <1% |
| Ddim yn gwybod | <1% |

Gwell gennyf beidio â dweud: 0%

# Iechyd deintyddol

Gofynnwyd i'r rhai a ddywedodd eu bod wedi derbyn gofal deintyddol preifat yn ystod y 12 mis diwethaf (n = 561; heb ei bwysoli)

**Pan gawsoch eich eitem neu gwrs olaf gofal deintyddol preifat, a fyddech wedi dewis defnyddio gofal deintyddol y GIG pe bai ar gael yn lleol?**

| | Do |
|---|---|
| Byddwn, ceisiais ei gael o dan y GIG ond nid oedd ar gael i mi | 49% |
| Byddwn, ond dim ond pe bai'n cael ei gynnig gan fy meddygfa ddeintyddol bresennol | 25% |
| Na fyddwn, mae'n well gen i ofal deintyddol preifat | 13% |
| Nid oedd y driniaeth a gefais ar gael ar y GIG (e.e. mewnblaniadau deintyddol, gwynnu dannedd) | 7% |
| Arall | 4% |

Gwell gennyf beidio â dweud: 1%

# Iechyd deintyddol

Gofynnwyd i'r rhai a atebodd nad oeddent wedi bod i apwyntiad deintyddol yn ystod y 12 mis diwethaf (n = 297; heb ei bwysoli)

**Pa rai o'r rhain, os o gwbl, yw'r rhesymau pam nad ydych wedi bod at y deintydd yn ystod y 12 mis diwethaf?**

| | Do |
|---|---|
| Ni allaf ddod o hyd i ddeintydd GIG | 56% |
| Newidiodd fy deintydd i fod yn breifat, ac ni allaf fforddio ffioedd deintyddol preifat | 22% |
| Rwy'n ofni mynd at ddeintyddion | 20% |
| Ni allaf fforddio taliadau deintyddol y GIG | 15% |
| Mae'n anodd mynd yn ôl ac ymlaen i'r deintydd | 13% |
| Nid wyf yn credu bod angen mynd at y deintydd bob 12 mis | 9% |
| Does dim o'i le ar fy nannedd | 8% |
| Arall | 15% |

Gwell gennyf beidio â dweud: 2%

# Iechyd deintyddol

**Mae Llywodraeth Cymru wedi awgrymu newidiadau mawr i sut y bydd deintyddiaeth y GIG yn cael ei darparu yng Nghymru o 2026. Cyn i'r newidiadau ddechrau, pa rai o'r newidiadau canlynol ydych chi'n meddwl y dylai'r cyhoedd fod yn ymwybodol ohonynt?** (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

| | Do |
|---|---|
| Newidiadau i ffioedd gofal deintyddol y GIG | 83% |
| Beth sydd wedi'i gynnwys yn y Pecyn Gofal Deintyddol Brys a sut i gael mynediad ato | 81% |
| Pa grwpiau o bobl fydd yn cael blaenoriaeth ar gyfer archwiliadau a thriniaeth deintyddol y GIG | 81% |
| Y triniaethau y gall gwahanol staff tîm deintyddol eu gwneud (e.e. therapyddion deintyddol, nyrs ddeintyddol) | 70% |
| Ni fydd unrhyw gofrestru cleifion ffurfiol a gellir anfon pobl sy'n chwilio am archwiliad deintyddol y GIG i wahanol feddygfeydd deintyddol | 74% |
| Dydw i ddim yn credu bod angen rhoi gwybod i'r cyhoedd am y newidiadau posibl uchod (ymateb unigryw) | 2% |

Gwell gennyf beidio â dweud: 2%

# Iechyd deintyddol

## Ydych chi'n credu y dylai deintyddiaeth y GIG gasglu gwybodaeth gan gleifion am eu profiadau a chanlyniadau eu triniaeth ddeintyddol?




Gwell gennyf beidio â dweud: 1%

# Iechyd deintyddol

## Ydych chi wedi clywed am y Porth Mynediad Deintyddol?




Gwell gennyf beidio â dweud: yn llai na 1%

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Newid hinsawdd

Archwiliodd yr adran hon ganfyddiadau pobl o newid hinsawdd.

# Newid hinsawdd

## Faint ydych chi'n pryderu am newid hinsawdd?




Gwell gennyf beidio â dweud: yn llai na 1%

# Newid hinsawdd

## Pa mor wybodus, os o gwbl, fyddech chi'n dweud eich bod chi am newid hinsawdd?




Gwell gennyf beidio â dweud: 0%

# Newid hinsawdd

## Pa fath o effaith, os o gwbl, ydych chi'n credu bod newid hinsawdd yn ei chael ar iechyd pobl yng Nghymru?



# Newid hinsawdd

**Pa rai o'r digwyddiadau canlynol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, os o gwbl, ydych chi'n credu fydd yn effeithio'n negyddol ar eich iechyd yn y 10 mlynedd nesaf?**
(Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

| | Do |
|---|---|
| Llygredd | 66% |
| Tymheredd yn codi | 64% |
| Stormydd difrifol | 55% |
| Mynediad at fwyd digonol, diogel a maethlon | 53% |
| Llifogydd | 52% |
| Sychder | 44% |
| Tanau gwyllt | 38% |
| Ni fydd yr un o'r uchod yn effeithio'n negyddol ar fy iechyd (ymateb unigryw) | 8% |

Gwell gennyf beidio â dweud: 3%

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Polisi iechyd cyhoeddus

Ceisiodd yr adran hon ddeall barn pobl ar wahanol feysydd polisi iechyd y cyhoedd.

# Polisi iechyd cyhoeddus

## Faint o rôl, os o gwbl, ydych chi'n credu y dylai Llywodraeth Cymru ei chael ym mhob un o'r canlynol?

| | Ddim yn gwybod | Dim un | Ddim yn fawr iawn | Swm teg | Llawer iawn |
|---|---|---|---|---|---|
| Lleihau tlodi plant | 1% | 2% | 4% | 17% | 75% |
| Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant | 2% | 3% | 5% | 21% | 69% |
| Gwneud bwyd a diod iach yn fwy hygyrch a fforddiadwy | 1% | 5% | 9% | 27% | 58% |
| Cynyddu sefydlogrwydd ariannol teuluoedd a chymunedau | 3% | 3% | 8% | 30% | 54% |
| Cynorthwyo cyflogwyr i gefnogi pobl â chyflyrau iechyd yn y gwaith | 4% | 3% | 8% | 36% | 48% |
| Rheoli effeithiau newid hinsawdd ar iechyd | 3% | 9% | 12% | 34% | 42% |

Gwell gennyf beidio â dweud: yn hafal i neu'n llai na 1%

# Eisiau bod yn rhan o Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus?

Mae recriwtio i Iechyd y Cyhoedd Amser i Siarad yn barhaus gan ein bod am siarad ag ystod eang o unigolion ledled Cymru.

**Os ydych chi'n byw yng Nghymru ac yn 16+ oed, dyma'ch cyfle i gael eich clywed.**

**Ymunwch â'r Grwp**

**Eisiau dysgu mwy am sut i fyw bywyd iach a llewyrchus?**

**Eisiau darganfod sut i helpu eich cymuned i ffynnu?**

**Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio i ddiogelu a gwella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd i bobl yng Nghymru.**



**Sut mae'r Panel yn gweithio?**

**Dweud eich dweud!**

**Beth yw iechyd cyhoeddus?**

**Gwneud wahaniaeth!**

**SiaradICCymru.com**

**01663 761976**

**SiaradICCymru@wales.nhs.uk**

# Cyfranwyr y Prosiect

**Tîm y Prosiect:** Dr Catherine Sharp, Prof Karen Hughes, Carys Dale

## Y Gyfarwyddiaeth Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredu Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi mewn Iechyd a Llesiant

**Diolchiadau am Gymorth Prosiect Ehangach:**

Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, WHO CC: Dr Sumina Azam, Dr Rebecca Hill, Dr Louisa Petchey, Nicola Rees

Communications Team: Aamir Mohammed, Sarah Hibbard, Katie Allen, Rebecca Hopkins, Danny Donovan, Celyn Hunt

Cross-Organisational Advisory Group: Amy Burgess, Bethan Bowden, Susan Belfourd, Giles Greene, Emily van de Venter, Chris Roberts (Welsh Government), Semele Mylona (Welsh Government)

**Datblygu'r Holiadur**

Datblygwyd y cwestiynau a ddefnyddiwyd yn arolwg mis Mehefin 2025 mewn partneriaeth â chydweithwyr yn Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru.

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Atodiad

Demograffeg

Dulliau

| | | Poblogaeth (16+ oed) | Sampl panel cyffredinol N = 3,727 | | Mehefin 2025 sampl arolwg N = 1,402 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhyw | Gwryw | 49% | 1592 | 43% | 600 | 43% |
| | Benyw | 51% | 2103 | 56% | 789 | 56% |
| | Arall | - | 32 | 1% | 13 | 1% |
| Oedran (blynyddoedd) | 16-29 | 20% | 659 | 18% | 166 | 12% |
| | 30-49 | 29% | 1440 | 39% | 423 | 30% |
| | 50-69 | 32% | 1007 | 27% | 511 | 36% |
| | 70+ | 19% | 621 | 17% | 302 | 22% |
| Cwintel amddifadedd | 1 (Mwyaf) | 19% | 572 | 15% | 178 | 13% |
| | 2 | 19% | 712 | 19% | 261 | 19% |
| | 3 | 21% | 731 | 20% | 274 | 20% |
| | 4 | 21% | 863 | 23% | 338 | 24% |
| | 5 (Lleiaf) | 20% | 849 | 23% | 351 | 25% |

Noder. Mae niferoedd sampl y panel yn cynrychioli dadansoddiad o'r bobl ar y panel a wahoddwyd i gymryd rhan yn arolwg Mehefin 2025. Nodwch. Data poblogaeth o Amcangyfrifon y Swyddfa Ystadegau Gwladol o boblogaeth y DU, Cymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon (Canol 2020) (yn agor mewn ffenestr newydd); Data cwintel amddifadedd o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019) (yn agor mewn ffenest newydd). Oherwydd diffyg cyfranogiad mewn pedwar arolwg yn olynol, mae 593 o bobl wedi cael eu tynnu oddi ar y panel. Amlinellwyd y broses hon i aelodau'r panel yn y deunydd ymuno.

| | | Poblogaeth (16+ oed) | Sampl panel cyffredinol N = 3,727 | | Chwefror 2025 sampl arolwg N = 1,402 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ethnigrwydd | Gwyn | | 3587 | 96% | 1362 | 97% |
| | Ethnigrwydd cymysg | | 57 | 2% | 18 | 1% |
| | Asaidd neu Asaidd Pryndeinig | | 52 | 1% | 10 | 1% |
| | Du, Affricanaidd, Caribïaidd, Du Cymraeg neu Du Prydeinig | | 12 | <1% | <5 | <1% |
| | Ethnigrwydd arall | | 10 | <1% | <5 | <1% |
| | Gwell gennyf beidio â dweud | | 9 | <1% | 5 | <1% |
| Bwrdd Iechyd | BIP Aneurin Bevan | | 685 | 18% | 229 | 16% |
| | BIP Betsi Cadwaladr | | 667 | 18% | 280 | 20% |
| | BIP Caerdydd a'r Fro | | 707 | 19% | 259 | 18% |
| | BIP Cwm Taf Morgannwg | | 563 | 15% | 195 | 14% |
| | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | | 531 | 14% | 214 | 15% |
| | BI Addysgu Powys | | 137 | 4% | 59 | 4% |
| | BIP Bae Abertaw | | 437 | 12% | 166 | 12% |

Nodwch. Mae amcangyfrifon poblogaeth yn ôl ethnigrwydd (yn agor mewn ffenest newydd) a gafwyd gan Stats Cymru ar gyfer pob oed oherwydd nad oes data ar gael ar gyfer trigolion 65+ oed nad ydynt yn wyn. Amcangyfrifon poblogaeth gan fyrddau iechyd lleol (yn agor mewn ffenest newydd) wedi'u casglu o Stats Cymru. BIP: Bwrdd Iechyd Prifysgol; BI: Bwrdd Iechyd.

# Dulliau - Recriwtio Cychwynnol

- Gosodwyd targed cychwynnol o 2,500 aelod panel er mwyn cael sampl arolwg misol o tua 1,000 ymateb; amcangyfrifwyd y byddai’r cyfraddau ymateb i arolygon bob yn ail fis yn 50% ar y mwyaf. I gyrraedd ystod o unigolion, defnyddiwyd tri dull recriwtio:
  - Ffon
  - Cyfryngau cymdeithasol
  - Wyneb yn wyneb
- Cafodd cwmni ymchwil i'r farchnad proffesiynol (DJS Research Limited) ei gaffael i gynnal y recriwtio a'rarolygon misol.
- Defnyddiwyd samplu cwota haenog wrth recriwtio dros y ffôn ac wyneb yn wyneb. Cwotâu wedi’u cymhwyso i:
  - Daearyddiaeth (Bwrdd Iechyd)
  - Oed
  - Rhyw
  - Cwintel Amddifadedd (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru)
- Roedd targedu cyfryngau cymdeithasol yn canolbwyntio ar fylchau demograffig mewn recriwtio.
- Cwblhaodd aelodau'r panel arolwg recriwtio cychwynnol a gofynnir iddynt gwblhau arolygon 15-20 munud bob yn ail mis. Cynhelir arolygon ar-lein neu dros y ffôn bob yn ail fis, yn dibynnu ar ddewis y sawl sy’n cymryd rhan.
- Mae rhagor o fanylion methodolegol ar gael ym mhrotocol y prosiect (yn agor mewn ffenest newydd).

# Dulliau

- Ar gyfer pob arolwg, gwahoddir holl aelodau'r panel i gwblhau' holiadur trwy'r dull y maent yn ei ffafrio (ffôn neu ar-lein). Rhoddir tair wythnos i aelodau'r panel gwblhau'r arolwg. O fewn yr amserlen honno, nodir bylchau yn y proffil demograffig sydd ei angen i gyflawni sampl sy'n cynrychioli oedran, rhyw, ethnigrwydd ac amddifadedd Cymru, ac anfonir nodiadau atgoffa i gwblhau'r arolwg.
- Mae'r holiaduron yn cynnwys cwestiynau sydd ag un ymateb a sawl ymateb (h.y. dewiswch bob un sy'n berthnasol). Pan fo cwestiwn yn un â sawl ymateb a'i fod yn cynnwys opsiwn un ymateb yn unig sy'n golygu mai dim ond yr opsiwn hwnnw y gellid ei ddewis, caiff hyn ei gydnabod ar y graff neu'r tabl.
- Er mwyn cynyddu cynrychiolaeth ar draws sampl yr arolwg, cynhelir tua 100 o gyfweliadau wyneb yn wyneb fesul arolwg gyda grwpiau poblogaeth a dargedir. Gwahoddir yr unigolion hyn i gwblhau'r arolwg ac fe'u gwahoddir yna i ymuno â'r panel. Felly mae cyfran yn gyfranogwyr sy'n cwblhau arolwg untro. Yn ogystal, rhoddir hysbysebion ar y cyfryngau cymdeithasol sy'n targedu grwpiau poblogaeth penodol.

.

Recriwtiwyd y cyfranogwyr (N = 1,402) a gwblhaodd arolwg mis Chwefror 2025 drwy'r dulliau canlynol:

| Dull Recriwtio | n | % |
|---|---|---|
| Ar-lein | 1138 | 81% |
| Dros y ffôn | 119 | 18% |
| Wyneb yn wyneb (panel) | 101 | 7% |
| Wyneb yn wyneb (untro) | 44 | 3% |

Cwblhaodd y cyfranogwyr (N = 1,402) arolwg mis Mehefin 2025 drwy'r dulliau canlynol:

| Dull Cyfranogiad | n | % |
|---|---|---|
| Ar-lein | 1219 | 87% |
| Dros y ffôn | 69 | 5% |
| Wyneb yn wyneb | 114 | 8% |

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

Gweithio gyda'n gilydd i greu Cymru iachach

Working together for a healthier Wales